## BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

**ADRODDIAD I:** **THE CHAIR AND MEMBERS OF THE PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

**PWNC:** **PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL - DYDD LLUN, 23 HYDREF 2023 DYDD LLUN, 23 HYDREF 2023**

**ADRODDIAD GAN:**

---

PRESENNOL: L. WINNETT (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: P. Baldwin (Is-gadeirydd)
M. Cross
G. A. Davies
G. Humphreys
D. Rowberry

A:

| EITEM | PWNC | GWAITH |
|---|---|---|
| | **CYDYMDEIMLAD**<br><br>Mynegodd y Pwyllgor gydymdeimlad gyda theulu Sally-Ann Evans, Cyfreithiwr a fu farw yn sydyn. Dangosodd Aelodau a Swyddogion eu parch gyda munud o dawelwch. | |
| **No. 1** | **CYFIEITHU AR Y PRYD**<br><br>Nodwyd na chafwyd unrhyw geisiadau ar gyfer y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd. | |
| **No. 2** | **YMDDIHEURIADAU**<br><br>Cafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr S. Behr, J. Hill a G. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Thomas. | |
| **No. 3** | **<u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u>**<br><br>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau. | |
| **No. 4** | **<u>RHESTR CEISIADAU/TRWYDDEDAU AR GYFER TRWYDDEDAU CERBYD HACNI A CHERBYDAU HUR PREIFAT</u>**<br><br>Gan ystyried y farn a fynegwyd gan y Swyddog Priodol yng nghyswllt y prawf budd cyhoeddus, sef o bwyso a mesur popeth fod y budd cyhoeddus mewn cynnal yr eithriad yn fwy na’r budd cyheoddus mewn datgelu’r wybodaeth ac y dylai’r adroddiad gael ei eithrio.<br><br>PENDERFYNWYD eithrio’r cyhoedd tra cynhelir yr eitem hon o fusnes gan ei bod yn debygol y byddai datgeliad o wybodaeth eithredig fel y’i diffinnir ym Mharagraff 12, Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y’i diwygiwyd).<br><br>Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Rheolwr Tîm Safonau Masnach a Thrwyddedu.<br><br>**<u>Cais 1(a) – Cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hur Preifat newydd</u>**<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy’n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn a bod y cais yn cael ei **<u>GYTUNO.</u>**<br><br>**<u>Cais 1(b) – Cais am Drwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni/Cerbyd Hur Preifat newydd</u>**<br><br>PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad sy’n cynnwys gwybodaeth yn ymwneud ag unigolyn a bod y cais yn cael ei **<u>GYTUNO.</u>** | |